# DINAS A SIR ABERTAWE

## MINUTES OF THE PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

## HELD AT YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE ON DYDD MERCHER, 29 MEHEFIN 2016 AT 4.00 PM

**YN BRESENNOL:**: Y cynghorydd E T Kirchner (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J A Hale | Y V Jardine | D J Lewis |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

Jeffrey Dong Chief Treasury & Technical Officer

**Ymddiheuriadau am absenoldeb.**

Y Cynghorwyr: J E Burtonshaw, T J Hennegan, A J Jones a/ac M Thomas

6 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

7 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2016 yn gofnod cywir.

8 **ASTUDIAETHAU ACHOS BUDDSODDI I ARBED.**

Cyflwynodd J Dong, Prif Swyddog y Drysorfa, adroddiad Llywodraeth Cymru o'r enw Buddsoddi-i - Arbed 4 - Buddsoddi tymor byr er lles tymor hir.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r diweddaraf am brosiectau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau cyhoeddus a oedd wedi derbyn cyllid Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad yn nodi er mwyn lleihau'r effaith negyddol ar wasanaethau rheng flaen o ganlyniad i setliadau cyllidebol llai, ei bod yn hollbwysig dod o hyd i ymagweddau cost-effeithiol at ddarparu a rhoi mwy o sylw i ataliaeth ac arloesedd wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

Ychwanegwyd y cyflwynwyd y cynllun grant er mwyn annog arloesedd. Darparwyd yr arian a oedd ar gael fel benthyciadau di-log y mae'n rhaid eu had-dalu'n llawn, yn

amodol ar drafodaeth gyda Llywodraeth Cymru. Roedd y gronfa wedi bod ar gael ers 2009. Fodd bynnag, nid oedd y cyngor wedi gwneud cais am arian drwy'r dull hwn ac roedd wedi defnyddio arian o'i Gronfa wrth Gefn ei hun.

Roedd esiamplau o'r cynlluniau a ddarparwyd yn cynnwys: -

- Astudiaeth Achos 1: Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru;
- Astudiaeth achos 2: Gwasanaethau i Blant sy'n derbyn Gofal - Prosiect Dychwelyd ac Atal (WRAP) Wrecsam;
- Astudiaeth Achos 3: Cludiant Cleifion mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys - Bwrdd Iechyd Hywel Dda;
- Astudiaeth Achos 4: Rhoi'r E-Restr ar waith - Bwrdd Iechyd Hywel Dda;
- Astudiaeth Achos 5: Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Powys - Cyngor Sir Powys.

Mae'r Gronfa ar gael ar sail ddewisol i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi eu prosiectau gwella strategol sy'n arwain at arbedion effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian sylweddol wrth sicrhau gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Nod y Gronfa yw:

- Cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus gwell yn unol ag agenda effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus a gwelliant ehangach Llywodraeth Cymru.
- Trawsnewid effeithlonrwydd gweithredol y gwasanaethau cyhoeddus a chreu arbedion effeithlonrwydd i ryddhau arian parod sylweddol;
- Annog cydweithio cryfach ar draws sefydliadau a ffiniau gweinyddol lle mae hyn yn arwain at fanteision mesuriadwy o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. a,
- Hyrwyddo lledaenu gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau sy'n codi o brosiectau.

Mae'r Gronfa'n targedu'r prosiectau hynny sy'n defnyddio ymagweddau profedig, lle mae tystiolaeth o lwyddiant blaenorol wrth gyflwyno manteision sylweddol. Er enghraifft, prosiectau yn y meysydd canlynol sy'n:

- gwella'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn caffael ac yn comisiynu nwyddau a gwasanaethau ac yn rheoli'r farchnad;
- trawsnewid prosesau busnes;
- gwneud defnydd gwell o'r ystâd gyhoeddus ac ymagweddau a rennir at adeiladu;
- lleihau costau swyddogaethau corfforaethol a busnes arferol trwy wasanaethau a rennir ac ymagweddau cydweithredol eraill at effeithlonrwydd sefydliadol;
- cynyddu effeithlonrwydd drwy gyflwyno neu wella TGCh fel dull cyflwyno;
- ail-lunio gwasanaethau fel eu bod yn fwy effeithiol drwy annog datblygu cydweithio blaengar ar draws sefydliadau.

Cydnabuwyd bod swyddog Is-adran 151 wedi dangos rheolaeth ariannol gall a chraff o'r blaen drwy roi cyfalaf i'r neilltu ar gyfer yr agenda trawsnewid a gwella. Roedd arian mewnol ar gael o hyd ar gyfer cynlluniau buddsoddi i arbed gydag achosion busnes cadarn.

Gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau i'r Swyddog a ymatebodd yn briodol. Tynnodd y pwyllgor sylw at gael system staff asiantaeth fewnol fel cais benthyciad Buddsoddi i Arbed posib.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol: -

1) Dylid nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Dylai'r Cadeirydd gysylltu ag Aelodau'r Cabinet / Cyfarwyddwr er mwyn darganfod a oes unrhyw gynlluniau o fewn eu portffolio / adran y gellid eu hariannu gan fenthyciad Buddsoddi i Arbed;
3) Dylid gwahodd y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r Prif Swyddog Trawsnewid Dros Dro i gyfarfod y pwyllgor ar 31 Awst er mwyn trafod system staff asiantaeth fewnol ymhellach;
4) Gofyn i Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad am y posibilrwydd o roi gallu staff asiantaeth fewnol ar waith.

## 9 RHAGLEN WAITH 2016-2017.

Cyflwynodd y cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2016/2017.

**PENDERFYNWYD** y dylid: -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Gwahodd y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r Prif Swyddog Trawsnewid Dros Dro i gyfarfod y pwyllgor ar 31 Awst 2016 er mwyn trafod system staff asiantaeth fewnol ymhellach.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.35 pm

**CADEIRYDD**